Law Commission
Reforming the law

Cyfryngau cymdeithasol (cyfraith droseddol, tystiolaeth a threfn)

Efallai nad yw cyfraith droseddol a rheolau troseddol tystiolaeth a threfn wedi cadw i fyny â'r datblygiadau technolegol a chymdeithasol sy'n deillio o'r cynnydd sydyn ac eang yn y rhai sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, megis Twitter a Facebook. Er enghraifft:

- Ni allai'r rhai a oedd yn gyfrifol am ddrafftio troseddau yn deillio o gyfathrebu o dan, er enghraifft, Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, broffwydo'r amgylchiadau lle gallai technoleg na ellid ei dychmygu gael ei cham-ddefnyddio bron i 30 o flynyddoedd yn ddiweddarach.

- Mae heriau tystiolaethol, er enghraifft wrth brofi awduraeth ac mewn perthynas â'r dechnoleg a ddefnyddir i gynhyrchu a chyfathrebu negeseuon drwy'r cyfryngau hyn.

- Gall negeseuon a gynhyrchir trwy'r cyfryngau cymdeithasol hefyd gyflwyno problemau awdurdodaethol arbennig, o ystyried y gall y person sy'n anfon y neges, y person sy'n ei derbyn a'r gweinydd drwy'r hwn mae'r neges yn pasio i gyd fod mewn gwledydd gwahanol.

Er y cafwyd nifer o fentrau i ystyried agweddau ar gyfryngau cymdeithasol yn y broses droseddol, megis canllaw'r DPP am erlyniadau cyfryngau cymdeithasol a chanllaw'r Arglwydd Brif Ustus ar y defnydd o Twitter yn y llys, nid ymgymerwyd â nifer o agweddau yn y maes hwn eto.

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod a yw'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn meddwl y byddai hwn yn brosiect buddiol i'r Comisiwn ymgymryd ag ef.